



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Tîm Iechyd Cyhoeddus Deintyddol

Y DEFNYDD O ANAESTHETEG CYFFREDINOL WRTH ROI TRINIAETH DDEINTYDDOL I BLANT YNG NGHYMURU

Awdur: Maria Morgan

Comisiynwyd gan: Prif Swyddog Deintyddol Cymru

Dyddiad: Ionawr 2018

Fersiwn: 1

Cyhoeddiad/ Dosbarthiad:

- Prif Swyddog Deintyddol Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru (mewnol)
- Byrddau Iechyd
- Pwyllgorau Deintyddol Lleol

Dyddiad Adolygu: Ebrill 2018

Diben y ddogfen a Chrynodeb ohoni:

Diben y gwaith hwn yw pennu ffigur cyffredinol ar gyfer triniaethau deintyddol gydag anesthesia cyffredinol a roddir i blant rhwng 0-17 mlwydd oed yng Nghymru yn ystod 2016-17 a chymharu hynny â data a gasglwyd ers 2011-12. Bydd y wybodaeth hon yn cynorthwyo'r Prif Swyddog Deintyddol i fonitro'r ddarpariaeth o anesthesia cyffredinol a'r ymdrechion i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n briodol.

Cyfeirnod y Cynllun Gwaith:

Cynllun Gwaith Tîm Iechyd Cyhoeddus Deintyddol

1 Y Defnydd o Anestheteg Cyffredinol wrth roi Triniaeth Ddeintyddol i Blant yng Nghymru

Cefndir

Argymhellodd ymchwiliad 2011 i Iechyd y Geg ymhlith Plant a gynhaliwyd gan Bwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau fod data am y nifer o achosion o weinyddu anaesthetig cyffredinol i blant a phobl ifanc ar gyfer gwaith deintyddol yng Nghymru yn cael ei gasglu a bod hynny'n cael ei adrodd fel rhan o fonitro Cynllun Gwên.

Roedd ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i'r Pwyllgor yn cytuno â'r argymhelliad hwn, ac yn cydnabod:

Gallai hyn fod yn ddangosydd defnyddiol o lwyddiant Cynllun Gwên, ond mae'n bwysig casglu'r data hyn ar gyfer Cymru gyfan, gan ddefnyddio dull cadarn a safonol.

O ganlyniad blaenoriaethwyd y cam gweithredu hwn yng Nghynllun Cenedlaethol y Prif Swyddog Deintyddol ar gyfer Iechyd y Geg:

Yn dilyn argymhellion gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn cyhoeddi data ar nifer y plant sy'n cael triniaeth ddeintyddol o dan anesthetig deintyddol bob blwyddyn. ([Cynllun Cenedlaethol Cymru ar gyfer Iechyd y Geg](#), Mawrth 2013, tudalen 28)

Nid yw anesthesia cyffredinol heb ei risg ac felly dim ond pan fo'i angen y dylid ei ddefnyddio. Mae'r ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at ddefnydd uchel o anesthesia cyffredinol ar gyfer tynnu dannedd yn cynnwys iechyd y geg gwael, diffyg brysbennu neu frysennu anaddas, asesu a chynllunio gofal deintyddol i blant sy'n cael eu hatgyfeirio gan Wasanaethau Deintyddol Cyffredinol ac anhawster o ran cael mynediad at ddewisiadau amgen priodol yn lle triniaethau anesthesia cyffredinol. O ystyried y gwelliannau a welwyd ym maes iechyd y geg yn y blynyddoedd diwethaf dylai fod gostyngiad yn yr angen i ddefnyddio anesthesia cyffredinol. Mewn rhai rhannau o Gymru mae systemau brysbennu yn ceisio atgyfeirio plant yn fwy priodol i gael triniaethau amgen yn lle anesthesia cyffredinol.

1.1 Diben

Diben y gwaith hwn yw pennu ffigur cyffredinol ar gyfer triniaethau deintyddol drwy ddefnyddio anesthesia cyffredinol i blant 0-17 mlwydd oed yng Nghymru yn ystod 2016-17 a chymharu hynny â data a gasglwyd yn 2015-16, 2014-15, 2013-14, 2012-13 a 2011-12.

1.2 Dull

Casglwyd y data drwy gysylltu'n uniongyrchol â rheolwyr gwasanaethau deintyddol mewn Byrddau Iechyd yn gofyn am wybodaeth ar gyfer 2016-17. Nid oedd data hyn yn cynnwys triniaethau deintyddol a reolwyd drwy dawelyddu ymwybodol.

Mae'n bwysig nodi nad oes systemau gwybodaeth ar waith ledled Cymru i gynhyrchu data manwl gywir ac amserol mewn perthynas ag anesthesia cyffredinol deintyddol.

1.3 Casgliadau

Cyflawnwyd cyfanswm o 7,340 o driniaethau deintyddol gydag anesthesia cyffredinol yng Nghymru yn ystod 2016-17. Cyflwynir y rhain fesul Bwrdd Iechyd Lleol y darparwr yn Nhabl 1 a fesul Bwrdd Iechyd Lleol lle mae'r claf yn byw yn Nhabl 2. Mae hyn yn cyfateb i 1.09% o'r boblogaeth sydd o dan 18 sy'n cael triniaeth ddeintyddol gydag anesthesia cyffredinol yng Nghymru yn ystod 2016-17 (Tabl 3). Neu mae *un o bob 92 o blant* ledled Cymru yn cael triniaeth ddeintyddol gydag anesthesia cyffredinol.

Dylai fod gan Fyrddau Iechyd fecanweithiau cadarn ar waith i gofnodi data ar anesthesia cyffredinol deintyddol ar systemau gwybodaeth yr YSBYTY. Dylai Byrddau Iechyd fonitro data ar anesthesia cyffredinol deintyddol yn fanwl, gan gynnwys cyfradd ailgyflawni triniaethau deintyddol gydag anesthesia cyffredinol, at ddibenion llywodraethu clinigol lleol. Dylai'r set ddata gynnwys data ar lefel cofnod unigol sy'n rhoi gwybodaeth ddemograffig, manylion y driniaeth a'r math o anesthetig.

Tabl 1 Y defnydd o anesthesia cyffredinol wrth roi triniaeth ddeintyddol i blant fesul Bwrdd Iechyd Lleol y darparwr, 2016-17

BILI y Darparwr Comisiynydd	Darparwr	0-2oed	3-17oed	Cyfanswm
Abertawe Bro Morgannwg	Clinig Parkway			1055
	Treforys gan gynnwys TS	18	207	225
Aneurin Bevan	Kensington Court	0	1342	1342
Aneurin Bevan	Aneurin Bevan (gan gynnwys Brenhinol Gwent)	58	269	327
Betsi Cadwaladr	GDC	39	1387	1426
Cwm Taf	Tywysog Siari	60	261	321
Caerdydd a'r Fro	UDH	37	1038	1075
Caerdydd a'r Fro	Brebhinol Morgannwg (GDC CF drwy GLG)	20	536	556
Hywel Dda	Clinig Parkway			1011
Powys		0	2	2
CYFANSWM CYMRU				7340

**Dylid dehongli ffigurau ar gyfer Kensington Court yn Aneurin Bevan â gofal, gan y gallent gynnwys cyfanswm nifer y triniaethau gydag anesthesia cyffredinol yn hytrach na niferoedd y cleifion unigol.*

Os cesglir data ar gyfer triniaethau gydag anesthesia cyffredinol yn wreiddiol drwy ddarparwr y tu allan i leoliad Ysbyty'r Bwrdd Iechyd yna dylid cofnodi'r data hyn ar system wybodaeth YSBYTY y Bwrdd Iechyd ar ôl derbyn y data hynny gan y darparwr. Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael yn rhwydd wedyn pan wneir cais amdani gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ran Llywodraeth Cymru.

Mae'n ymddangos bod rhai anghysondebau yn y data o ran y modd y cofnodwyd y defnydd anesthesia cyffredinol wrth roi triniaeth i blant ar gyfer trigolion Powys. Dim ond dwy driniaeth ddeintyddol gan ddefnyddio anesthesia cyffredinol a roddwyd i blant dan 18 oed gan ddarparwr ym Mhowys (Tabl 1). Yn ôl Bwrdd Iechyd Powys, cafodd **20** o blant o Bowys driniaeth gydag anesthesia cyffredinol gan Fyrddau Iechyd Lleol eraill yng Nghymru. Roedd y data a anfonwyd gan Fyrddau Iechyd Lleol eraill Cymru at Uned Gwybodaeth Iechyd Geneuol Cymru yn nodi cyfanswm o **28** o blant ar gyfer Powys (Tabl 2). Er enghraifft nododd Bwrdd Iechyd Cwm Taf (Tywysog Siarl) ei fod wedi rhoi triniaeth i 23 o drigolion Powys (Tabl 2) ond roedd Bwrdd Iechyd Powys yn nodi mai 12 oedd y ffigur. Fodd bynnag, dylid nodi mai prin yw'r ffigurau anghyson dan sylw ac mae eu heffaith ar y darlun cenedlaethol yn fach iawn.

Tabl 2 Y defnydd o anesthesia cyffredinol wrth roi triniaeth ddeintyddol i blant fesul Bwrdd Iechyd Lleol y claf – 2016-17

BILI lle mae'r claf yn byw	Darparwr	Nifer y cleifion o'r BILI
Aneurin Bevan	Kensington Court	1342
Aneurin Bevan	Caerdydd a'r Fro - Ysbyty Deintyddol y Brifysgol	84
Aneurin Bevan	Ysbyty Brenhinol Gwent*	327
Aneurin Bevan	Ysbyty Treforys	3
Aneurin Bevan	Ysbyty'r Tywysog Siarl	36
Cyfanswm Aneurin Bevan		1792
Abertawe Bro Morgannwg	Parkway	1055
Abertawe Bro Morgannwg	Ysbyty Treforys	149
Abertawe Bro Morgannwg	Ysbyty'r Tywysog Siarl	2
Abertawe Bro Morgannwg	Caerdydd a'r Fro - Ysbyty Deintyddol y Brifysgol	17
Cyfanswm Abertawe Bro Morgannwg		1223
Betsi Cadwaladr	Ysbyty'r Tywysog Siarl	1
Betsi Cadwaladr	Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol	1426
Cyfanswm Betsi Cadwaladr		1427
Cwm Taf	Caerdydd a'r Fro - Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol - yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg	523
Cwm Taf	Caerdydd a'r Fro - Ysbyty Deintyddol y Brifysgol	72
Cwm Taf	Ysbyty'r Tywysog Siarl	254
Cwm Taf	Ysbyty Treforys	5
Cwm Taf	Ysbyty Brenhinol Gwent*	1
Cyfanswm Cwm Taf		855
Caerdydd a'r Fro	Caerdydd a'r Fro - Ysbyty Deintyddol y Brifysgol	893
Caerdydd a'r Fro	GDC CF - yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg	33
Caerdydd a'r Fro	Ysbyty Treforys	2
Caerdydd a'r Fro	Ysbyty'r Tywysog Siarl	2
Caerdydd a'r Fro	Ysbyty Brenhinol Gwent*	
Cyfanswm Caerdydd a'r Fro		930
Hywel Dda	Parkway	1011
Hywel Dda	Ysbyty Treforys	64
Hywel Dda	Ysbyty'r Tywysog Siarl	0
Hywel Dda	Ysbyty Brenhinol Gwent*	1
Hywel Dda	Caerdydd a'r Fro - Ysbyty Deintyddol y Brifysgol	7
Cyfanswm Hywel Dda		1083
Powys	Ysbyty Treforys	2
Powys	Ysbyty Brenhinol Gwent*	1
Powys	Caerdydd a'r Fro - Ysbyty Deintyddol y Brifysgol	
Powys	Ysbyty'r Tywysog Siarl	23
Powys	Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys	2
Cyfanswm Powys		28
Cyfanswm Cymru		7338

* namyn 2 glaf – Swydd Henffordd

Mae tabl 3 yn dangos nifer y triniaethau gydag anesthesia cyffredinol fesul uned o'r boblogaeth plant. Gan ystyried mai'r prif ddangosydd ar gyfer triniaeth gydag anesthesia cyffredinol yw er mwyn ymdrin â dannedd sydd wedi'u heffeithio gan bydredd, byddem yn disgwyl darpariaeth uwch o driniaethau gydag anesthesia cyffredinol mewn ardaloedd â lefelau uwch o bydredd.

Tabl 3 Nifer y triniaethau deintyddol gydag anesthesia anesthetig cyffredinol ymhlith y boblogaeth o dan 18

BILI	Nifer y plant <18 oed	Nifer yr achosion o anesthetig cyffredinol fesul BILI y mae'r claf	& amllder
Powys	27850	28	0.10
Caerdydd a'r Fro	105416	930	0.88
Betsi Cadwaladr	148940	1427	0.96
Aneurin Bevan	133632	1792	1.34
Cwm Taf	66495	855	1.29
Hywel Dda	81028	1083	1.34
Abertawe Bro Morgannwg	110726	1223	1.10
CYMRU	674087	7338	1.09


*Data Cyfrifiad 2011 (wedi'i gyfrifo o grwpiau oedran un flwyddyn).

Noder Nid yw 1 driniaeth gydag anesthesia cyffredinol yn cyfateb i 1 plentyn. Efallai fod ambell blentyn wedi cael mwy nag un driniaeth.

Mae'r lefelau uchaf o bydredd ymysg plant [3](#), [5](#) a [12](#) oed i'w gweld yn ardaloedd Byrddau Iechyd Cwm Taf ac Aneurin Bevan. Mae cyfraddau'r triniaethau gydag anesthesia cyffredinol a gofnodwyd ym Myrddau Iechyd Lleol Hywel Dda a PABM yn uwch o gymharu â byrddau iechyd eraill pe bai niferoedd y triniaethau deintyddol gydag anesthesia cyffredinol yn adlewyrchu lefel pydredd ymysg plant. Mae hyn yn awgrymu y gellid lleihau nifer y triniaethau deintyddol gydag anesthesia cyffredinol yn y byrddau iechyd hyn ymhellach drwy wella brysbennu, asesu, cynllunio triniaethau a darparu triniaethau drwy dawelyddu ymwybodol.

1.4 Cymhariaeth â gweithgaredd blynyddoedd blaenorol

Mae ffigur 1 yn cymharu gweithgaredd 2016-17 gyda data 2015-16, 2014-15, 2013-14, 2012-13 a 2011-12, sef y flwyddyn gyntaf lle y casglwyd y data ar gyfer yr ymarfer hwn ac mae'n gweithredu fel data llinell sylfaen.

Ffigur 1 Gweithgaredd Anesthesia Cyffredinol 2011-2017


**Mae ffigur 2011-12 wedi'i addasu i amcangyfrif y nifer y gallai Aneurin Bevan fod wedi'i gofnodi ar gyfer Ysbyty Brenhinol Gwent.*

Yn gyntaf mae'n bwysig nodi nad oedd ffigurau 2011-12 yn cynnwys data o Ysbyty Brenhinol Gwent ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan, oherwydd ni chawsant eu cofnodi. Er mwyn gwneud cymhariaeth decach rhwng y pedair blynedd yr adroddir arnynt, mae llinell sylfaen 2011-12 wedi'i haddasu i gynnwys 214 o driniaethau gydag anesthesia cyffredinol (sef ffigur 2012-13). Pe baem yn rhagdybio bod tua'r un nifer o driniaethau gydag anesthesia cyffredinol wedi'u cyflawni yn Aneurin Bevan yn 2011-12, yna'r **llinell sylfaen wedi'i haddasu ar gyfer Cymru** ar gyfer y flwyddyn honno fyddai $9,092 + 214 = \mathbf{9,306}$.

Nifer y triniaethau deintyddol gydag anesthesia cyffredinol i blant yng Nghymru yn 2016-17 oedd 7,340, ac mae hyn yn llai o gleifion o gymharu â 2015-16 (Ffigur 1). Hefyd, mae hyn yn gyfystyr â gostyngiad o 21% (1,966) yn nifer y triniaethau gydag anesthesia cyffredinol a roddwyd i blant ers 2011-12 (gan dybio bod llinell sylfaen wedi'i haddasu o 9,306).

Mae ffigur 2 yn rhoi'r gweithgaredd dros y pedair blynedd fwyaf diweddar fesul Bwrdd Iechyd Lleol y darparwr.

Ffigur 2 Gweithgaredd Anesthesia Cyffredinol 2013-2017 fesul Bwrdd Iechyd Lleol y darparwr



1.5 Trafodaeth

Mae'n bwysig cydnabod bod rhanddeiliaid allweddol wedi mynegi pryder ynglŷn â thystiolaeth o gyfrif cleifion ddwywaith ac anghysondebau eraill yn gysylltiedig â'r data – felly mae angen dehongli'r data ar driniaethau gydag anesthesia cyffredinol gyda gofal.

Wrth adolygu data a gyflwynwyd gan ddarparwr/comisiynydd mae'n amlwg bod datblygiadau diweddar o ran gwell meini prawf sgrinio cleifion a llwybrau gofal newydd wedi dechrau cael effaith. Yn ystod 2014-15 mae gweithgaredd anesthesia cyffredinol ar gyfer y grŵp hwn sy'n agored i niwed wedi lleihau ar gyfer Parkway, Kensington Court ac Ysbyty Deintyddol y Brifysgol. Rhwng 2015-16 a 2016-17 darparodd Parkway 299 yn llai o driniaethau deintyddol gydag anesthesia cyffredinol i blant yn ardal bwrdd iechyd Hywel Dda (1310 yn 2015-16; 1011 yn 2016-17) a 511 yn llai yn ardal bwrdd iechyd PABM (1566 yn 2015-16; 1055 yn 2017), Ffigur 3(ii).

Croesawir y gostyngiad yn nifer y plant yng Nghymru sy'n cael triniaeth ddeintyddol gydag anesthesia cyffredinol ond mae'n debygol iawn o fod yn adlewyrchiad o'r newidiadau mewn protocolau asesu a thrin yn hytrach na gwelliant ar lefel poblogaeth ym maes iechyd y geg.

Roedd barn broffesiynol a fynegwyd gan randdeiliaid allweddol yn awgrymu y gallai peth o'r gostyngiad hwn adlewyrchu argaeledd sesiynau anesthesia cyffredinol ac amseroedd aros hwy ac efallai nad yw'n gysylltiedig â lleihad yn y galw. Mae argaeledd Gwasanaeth Deintyddol Pediatrig arbenigol a gwasanaethau tawelyddu ymwybodol hefyd yn cael effaith ar y defnydd o anesthesia cyffredinol mewn triniaethau deintyddol.


O gymharu ag ardaloedd Byrddau Iechyd Lleol eraill mae darpariaeth anesthesia cyffredinol ym Myrddau Iechyd PABM ac yn arbennig Hywel Dda yn uwch na byrddau iechyd eraill. Mae arwyddion bod nifer y triniaethau deintyddol gydag anesthesia cyffredinol yn y byrddau iechyd hyn yn lleihau ond dylid ystyried ymhellach beth yn ychwanegol y gellir ei wneud yn lleol i leihau'r angen a'r galw am driniaeth ddeintyddol gydag anesthesia cyffredinol.

O ystyried bod effeithiolrwydd systemau brysbennu, darpariaeth gwasanaethau tawelyddu ymwybodol a gwasanaethau deintyddol pediatrig arbenigol yn amrywio rhwng byrddau iechyd yng Nghymru yn 2016/17, mae'n ymddangos bod lle i wella'n sylweddol o ran lleihau anesthesia cyffredinol deintyddol a roddir i blant yng Nghymru. Er mwyn lleihau nifer y triniaethau deintyddol gydag anesthesia cyffredinol ymhellach bydd angen i Fyrddau Iechyd wneud gwelliannau i'w llwybrau gofal deintyddol presennol i blant. Bydd hefyd angen gwella parhaus ar iechyd deintyddol plant drwy gyflwyno gwasanaethau atal sylfaenol ac eilaidd yn seiliedig ar dystiolaeth yn effeithiol trwy leoliadau clinigol ac anghlinigol.


Casgliad

Mae nifer y triniaethau deintyddol gydag anesthesia cyffredinol ymysg plant yng Nghymru wedi lleihau i 7,340 yn 2016/17. Erys hyn yn sylweddol is na ffigurau llinell sylfaen o 2011. Mae'n ymddangos mai newidiadau mewn llwybrau gofal a phrosesau atgyfeirio lleol mewn rhai Byrddau Iechyd sydd i'w gyfrif am y gostyngiad hwn.

Ffigur 3(i) Gweithgaredd Anesthesia Cyffredinol 2011-2017 wedi'i gyflwyno yn ôl y Bwrdd Iechyd Lleol lle mae'r claf yn byw



Ffigur 3(ii) Gweithgaredd Anesthesia Cyffredinol 2011-2017 wedi'i gyflwyno yn ôl darparwr o fewn ffiniau'r Bwrdd Iechyd Lleol



1.6 Argymhellion

Argymhellir bod Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Iechyd yn parhau i fonitro'r galw a'r angen am anesthesia cyffredinol wrth roi triniaethau deintyddol i blant ac yn gwneud gwelliannau parhaus i sicrhau bod plant yn cael y gofal mwyaf priodol yn y lleoliad mwyaf priodol.

Dylai fod gan Fyrddau Iechyd systemau gwybodaeth cyfrifiadurol i gasglu gwybodaeth gywir am nifer y plant sy'n cael triniaeth ddeintyddol gydag anesthesia cyffredinol. Bydd datblygu systemau gwybodaeth o'r fath o fewn byrddau iechyd yn hybu cadernid y set ddata ac yn cefnogi prosesau monitro lleol ar waith i wella Ansawdd a Diogelwch. Wedyn dylai'r wybodaeth hon fod ar gael yn rhwydd at ddibenion adrodd (yn genedlaethol/rhanbarthol/lleol) er mwyn llywio'r broses o gynllunio gwasanaethau.

O fewn eu Cynlluniau Lleol ar gyfer Iechyd y Geg, dylai pob Bwrdd Iechyd ddatblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer y tymor canolig a'r hirdymor i leihau'r defnydd o anesthesia cyffredinol wrth roi triniaeth ddeintyddol i blant. Dylai Byrddau Iechyd gyflwyno llwybr gofal i blant a atgyfeiriwyd gan Ofal Sylfaenol ar gyfer gofal deintyddol arbenigol neu uwch. Dylai llwybrau gofal o'r fath gynnwys profforma atgyfeirio wedi'i safoni, brysbennu (gan gynnwys asesiad llawn a chynllunio gofal deintyddol) a'r gofal deintyddol gofynnol yn cael ei ddarparu gan y tîm mwyaf priodol yn y lleoliad mwyaf priodol. Mae integreiddio prosesau atal parhaus wrth gynllunio gofal, darparu'r lefel briodol o dawelyddu ymwybodol a gwasanaethau deintyddol pediatrig arbenigol yn bwysig er mwyn sicrhau effeithiolrwydd y llwybr gofal. Dylai'r bwriad i gyflwyno system e-atgyfeirio ar gyfer deintyddiaeth fod yn gyfle i fyrddau iechyd adolygu, datblygu a rhoi cynllun gwella ar waith.

Diolchiadau

Diolch i Reolwyr Gwasanaethau Deintyddol Byrddau Iechyd ar draws Cymru am ddarparu'r data sy'n sail i'r adroddiad hwn. Diolch i Anup Karki am ei gymorth o ran rhoi'r casgliadau yn eu cyd-destun.